HARLECH

EST FOODSERVICE 1972

GWASANAETH BWYD




# ADRODDIAD ESG
# 2022/23

# Neges gan y Rheolwr Gyfarwyddwr

Am dros fwy na hanner canrif mae pobl wedi edmygu safonau uchel Gwasanaeth Bwyd Harlech Foodservice. Mae'n bwysig hefyd ein bod yn cael ein gweld fel esiampl i'w dilyn ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant (economic, social, and, governance – ESG).

Rwyf felly'n arbennig o falch fod y cwmni yn awr wedi cynhyrchu ei adroddiad ESG cyntaf.

Ers 1972, buom yn cefnogi cymunedau lleol, gofalu dros yr amgylchedd a sicrhau fod ein busnes yn cwrdd â phob gofyniad cydymffurfio a diogelwch.

Rydym bob amser yn awyddus i ledaenu'r neges am ein gweithgareddau ESG ac mae'r adroddiad hwn yn gyfle ardderchog i ddwyn sylw at y pethau a wnawn.

Ynddo cewch wybod mewn manylder am ein gwaith i leihau ein defnydd o nwyon rhewi a milltiroedd bwyd, ynghyd â'r ffyrdd yr ydym yn cynnig amgylchedd gwaith sy'n parchu amrywiaeth a chyfle cyfartal.

Beth bynnag yw'r dasg, boed anelu tuag at Sero Net neu helpu clybiau chwaraeon a grwpiau cymunedol lleol, mae ein timau bob amser yn anelu at fynd uwchben a thu hwnt i unrhyw ofynion.

Bu ein hymrwymiad i weithgareddau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethiant (ESG) yn rhan annatod o'n ffordd o weithio ers mwy na pum deg mlynedd. Ein nod yw parhau i gael effaith gadarnhaol ar y diwydiannau a'r cymunedau o'n hamgylch.



**David Cattrall**
Rheolwr Gyfarwyddwr

HARLECH
EST FOODSERVICE 1972
GWASANAETH BWYD






# Ymrwymiad hanesyddol Gwasanaeth Bwyd Harlech Foodservice i ESG – mae wrth galon pob dim a wnawn

Rydym bob amser yn parchu'r amgylchedd, y bobl a'r cymunedau lle gweithredwn, a gwnawn hynny heb gyfaddawdu mewn unrhyw ffordd ar ansawdd ein gwaith.

Ers dros 50 mlynedd rydym wedi ceisio ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol mewn ffyrdd blaengar a chreadigol.

I leihau ein hôl troed carbon, rydym wedi buddsoddi'n helaeth mewn isadeiledd, technolegau a systemau newydd, yn cynnwys newid cerbydau a gosod paneli solar.

Rydym hefyd wedi cefnogi achosion da elusennol dros y blynyddoedd, yn cynnwys Action For Children, Tŷ Gobaith a Race for Life.

Rydym wedi cefnogi gweithgareddau timau pêl droed ieuenctid a chlybiau bocsio ac wedi cynnig nawdd a chymorth i ddigwyddiadau fel Gwobrau Bwyd a Diod y Daily Post ac Academi Twristiaeth a Lletygarwch Go Gogledd Cymru.

Yn ogystal â meithrin cysylltiadau cryf â chymunedau lleol, mae gennym hefyd record ardderchog o agor drysau at addysg a hyfforddiant.

Enghraifft nodedig o hyn yw ein Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol, lle buom yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd i gynnig cymorth cogyddion datblygu a bwyd am ddim i dair ysgol er mwyn addysgu'r disgyblion am fwydlenni plant a sut i fwyta'n iach.

Rydym hefyd wedi cymryd rhan mewn cynhadledd 'Cwrdd â'r Cyflogwr' yng Ngholeg Meirion Dwyfor Dolgellau, cynnal cyfweliadau ffug gyda disgyblion yn Ysgol Hafod Lon Pwllheli a chefnogi cymhwyster busnes BTEC yn Ysgol Eifionydd Porthmadog.

Yn ogystal â chefnogi pobl ifanc trwy gynnig profiad gwaith a swyddi tymhorol, bu ein staff warws yn gweithio tuag at NVQ lefel 2 mewn sgiliau warws a dosbarthu. Buom hefyd yn hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant pellach, prentisiaethau a phrofiad gwaith yn y gynhadledd Buddsoddi mewn Sgiliau: Invest in Growth.

# Amgylcheddol

Mae Gwasanaeth Bwyd Harlech Foodservice wedi ymrwymo i gyrraedd Sero Net erbyn 2050, yn unol â tharged Llywodraeth Cymru.

Fel rhan o'n taith tuag at Sero Net, rydym wedi:


- Cael arbenigwyr i gadarnhau cywirdeb ein cynlluniau Cwmpas 1 a Chwmpas 2 (Scope 1 & Scope 2)
- Parhau i leihau ein hôl troed carbon lle bynnag y bo modd
- Ystyried y posibilrwydd o newid ein cerbydau yn llwyr i gerbydau trydanol gwerthu bwyd
- Defnyddio a cheisio'n barhaus y cerbydau mwyaf carbon effeithlon, a'r offer a rhewyddion mwyaf eco-gyfeillgar
- Gofalu fod pob gwastraff a gynhyrchir yn cael ei ailgylchu, gan osgoi tirlenwi
- Canfod dulliau gwrthbwyso carbon (carbon offset) ar gyfer allyriadau na allwn eu dileu'n fewnol



Sut fyddwn ni'n cyrraedd ein nod ar gyfer 2050?

Bydd gorsafoedd pŵer yn Sero Net erbyn 2035 a bydd datblygiadau newydd yn y maes trafnidiaeth yn lleihau ymhellach ein allyriadau carbon. Yng Ngwasanaeth Bwyd Harlech Foodservice credwn fod y dyddiad yn dal i ganiatáu digon o amser:

- I'n cyflenwyr ostwng eu hôl troed carbon sy'n effeithio ar ein ôl troed carbon ni
- I weld a fydd unrhyw ddatblygiadau newydd yn y maes ynni adnewyddadwy
- I'r cwmni wneud newidiadau mewnol a buddsoddi'r cyfalaf angenrheidiol dros amser i newid ein hoffer presennol am offer sy'n cynhyrchu llai o allyriadau carbon neu ddim allyriadau o gwbl
- I ni ganfod y gwrthbwysiad (offset) carbon mwyaf cost effeithiol i gwrdd â'n anghenion



## Nwyon Rhewi

Un ffocws allweddol fu lleihau'n defnydd o nwyon rhewi (refrigerant gases), sef y rhai mwyaf gwenwynig sy'n aros am filoedd o flynyddoedd yn yr atmosffer ac yn niweidio'r haen oson.

Yn amlwg iawn roedd angen atal defnyddio'r rhewydd R404A oherwydd ei sgôr Potensial Cynhesu Byd Eang (Global Warming Potential - GWP). Rydym felly wedi newid i R449A.


Mae'r canlyniadau'n rhyfeddol. Er enghraifft, trwy newid uned cyddwyso (condensing unit) ar estyniad stafell oer i'r storfa tymheredd isel, arbedwyd cyfwerth â 49.91 tunnell CO2 (CO2e) o allyriad nwy rhewi.

Diolch i raglen o welliannau blynyddol, nid oes unrhyw rewydd bellach yn gollwng o'n cerbydau cludo ac mae'r siartiau cylch isod yn dangos mor benderfynol yr ydym i wella mwy fyth ar yr agwedd hon ar ein perfformiad.


Pan gyhoeddwyd ffigyrau gyntaf nôl yn 2017, roedd y canran o'n tunelli CO2e a gynhyrchwyd am bob kg gan ein defnydd o nwyon rhewi yn 36%. Erbyn 2022 gostyngodd y ffigwr hwn yn ddramatig i ddim ond 0.82%, newid sy'n gyfwerth ag arbed mwy na 93 tunnell.

### Dosbarthiad rhwng gwahanol gategorïau

Canran Tunelli CO2e **2017**




Canran Tunelli CO2e **2022**






## Ffocws ar Weithgareddau

Ar ôl dileu effaith nwy rhewi bron yn gyfan gwbl o'r hafaliad, yr her fwyaf a wynebwn yn awr yw cynnyrch CO2e ein cerbydau cludo bwyd.

Symudwyd yn gadarn i'r cyfeiriad iawn dros y 18 mis diwethaf, er enghraifft drwy gyflwyno system reoli tanwydd a newid pedwar cerbyd HGV i leihau'r CO2e a gynhyrchwn am bob milltir o deithio.

Serch y llwyddiant hwn, rydym yn awyddus i ostwng ein allyriadau carbon ymhellach trwy:

- Gynnal astudiaeth i weld a oes modd lleihau nifer y dyddiau y byddwn yn danfon bwyd i gwsmeriaid
- Gwella 10% ar effeithiolrwydd ein llwybrau teithio erbyn Hydref 2024
- Newid pedwar arall o'n cerbydau hybrid HGV presennol erbyn diwedd 2024
- Gosod offer rhewi di-injan (engineless refrigeration) ar chwech cerbyd newydd HGV fel bod pob un ohonynt yn defnyddio 28 litr yn llai o ddiesel y mis, gan arbed 8.6 tunnell o CO2e y cerbyd
- Comisiynu adroddiad yn archwilio'r posibilrwydd o addasu ein 40 lori HGV a saith fan fel bod pob un ohonynt yn rhedeg ar drydan yn unig
- Mireinio ein llwybrau teithio er mwyn danfon i fwy o lefydd ar bob taith a chynyddu cyfartaledd maint pob danfoniad



## Cwmpas Un a Chwmpas Dau

'Cwmpas Un' a 'Cwmpas Dau' (Scope One & Scope Two) yw'r termau newydd a ddefnyddir wrth ofyn am ddata carbon gan wahanol sefydliadau.

Wrth gymharu 2022 a 2019 – y flwyddyn lawn olaf cyn Covid 19 – gwelir gostyngiad i 2,044.63 tunnell CO2e o'r ffigwr blaenorol o 2,530.10 tunnell CO2e.

Er mwyn cael cofnodion cywir a sail mesur cyson byddwn yn mesur CO2e fesul gwerthiant am bob cilogram. Y canlyniad am 2022 yw 0.05, ffigwr gwell na phob un o'r tair blynedd cynt.

Mae'r ffigyrau a ragwelir am Gwmpas Un a Chwmpas Dau yn 2023 yn dangos cyfanswm arbediad o 12%.

## Cwmpas Tri

Rydym bellach wedi cwblhau Cwmpas Tri ar gyfer 2021 (19,399.67) a 2022 (18,150.19), ac wedi pennu 2021 fel ein blwyddyn waelodlin (baseline year) i bwrpas ein cynllun mesur gostyngiadau carbon.

Defnyddiwyd y cod dosbarthiad diwydiannol safonol (Standard Industrial Classification - SIC) i fesur ein allyriadau CO2e anuniongyrchol wrth ymwneud â chyflenwyr eraill. Trwy weithio'n agos â'n cyflenwyr i gydgasglu gwybodaeth am bob ymgyrch a gweithred byddwn nid yn unig yn lleihau ein allyriadau carbon ond hefyd yn adrodd amdanynt mewn ffordd well.



Erbyn 2026/27, bydd raid darparu tystiolaeth Cwmpas Tri i rai cyrff cyhoeddus wrth dendro am waith sy'n werth mwy na £5 miliwn.

Un ffocws allweddol yw'r ffordd yr ydym yn rheoli gwastraff. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth, a ddaw'n weithredol ar 6 Ebrill 2024, yn ei gwneud yn anghyfreithlon gyrru rhai mathau o wastraff i'w dirlenwi. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwastraff bwyd
- Papur a chardfwrdd
- Gwydr
- Ffibr, yn cynnwys metel, plastig a chartonau
- Offer trydanol ac electronig

Tra bo Gwasanaeth Bwyd Harlech Foodservice eisoes yn gweithredu'r rhan fwyaf o'r gofynion hyn, mae ein dulliau monitro gofalus hefyd yn ein galluogi i fesur pa wahaniaeth a wnaed. Amcangyfrifwn ein bod yn arbed 45 tunnell CO2e y flwyddyn oherwydd y ffordd y deliwn â'n prif ffynonellau gwastraff. Rydym hefyd yn osgoi anfon 10 tunnell arall i'w dirlenwi ac yn sicrhau fod pob gwastraff bwyd yn cael ei ddefnyddio i greu ynni mewn ffordd sy'n arbed defnyddio tanwydd ffosil.

Rhan allweddol arall o Gwmpas Tri yw'r milltiroedd a deithir gan aelodau staff, ac rydym wedi lleihau ein allyriadau teithiau busnes o 6.26 tunnell CO2e yn 2021 i 4.43 tunnell CO2e yn 2022.

## Uchafbwyntiau allweddol eraill

Mae Gwasanaeth Bwyd Harlech Foodservice yn aelod o gorff prynu cydweithredol y Country Range Group a'r Foodservice Packaging Association ac rydym hefyd yn cynnal trafodaethau buddiol gyda chynhyrchwyr ynghylch lleihau maint y deunydd pecynnu a lapio a ddefnyddir i warchod a dosbarthu gwahanol fwydydd.

Mae un o'r cynhyrchwyr hynny wedi lansio tybiau seiliedig ar bapur, eco-gyfeillgar, 100% bioddiraddadwy (biodegradable), compostadwy (compostable) gyda leinin BioPBS ar gyfer ein detholiad o'u bwydydd wedi rhewi.

Rydym hefyd wedi:

- Lansio potel Dŵr Cymru a wnaed o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu 100% yn hytrach na'r canran arferol o 51%
- Cynyddu maint y pecynnau cig ffres a werthwn lle bynnag y bo modd, yn cynnwys newid y pecyn briwgig o faint 1k i 2.5k – gan ddefnyddio 400 yn lle 1,000 o fagiau pecynnu dan wactod (vacuum packed)
- Pecynnu ein detholiad o steciau bîff fesul dwy yn lle fesul un

Rydym wastad yn chwilio am ffyrdd o wella ein defnydd ynni ar ôl gweld bod gosod paneli solar ar do'r prif swyddfa yn 2016 wedi gwneud gwahaniaeth mawr er gwell.

Rydym wedi canoli ochr Caer i'r busnes fel rhan o'n hymdrechion i osgoi dyblygu. Yn lle defnyddio dau adeilad yng ngogledd orllewin Lloegr, trwy symud pob dim i'r depo gwnaed i ffwrdd â'r angen i rentu swît o swyddfeydd yn y parc busnes.

Bu hyn o gymorth i arbed costau ynni, fel y gwna'n bwriad i gau ein cyfleusterau cigydd ar safle'r prif swyddfa.

Ar ôl penderfynu is-gontractio ein prosesau trin cig, caiff adeilad Bwydlyn ei ddefnyddio fel gofod warws ychwanegol, gan arbed mwy na 47 tunnell o CO2e.



# Cymdeithasol

## Milltiroedd bwyd

Drwy ddefnyddio cerbydau danfon sydd eisoes yn yr ardal i gasglu cynnyrch oddi wrth ein cyflenwyr, rydym yn lleihau'r angen i deithio milltiroedd ychwanegol.

Mae nifer o welliannau cymdeithasol yn mynd law yn llaw â'n datblygiadau amgylcheddol.

Un ohonynt yw adolygu'r ffordd yr ydym yn cwrdd â gofynion Cwmpas Tri, a'n ffocws ar ein cyflenwyr a'u dymuniad hwythau i gyrraedd Sero Net. O ganlyniad, rydym yn edrych yn fanwl ar natur y gadwyn gyflenwi leol, yn cynnwys ein cyfanswm gwerthiant a'n defnydd o gynhyrchion o Gymru.

Rydym yn gweithio gyda nifer cynyddol o gyflenwyr o Gymru, gan amlygu ein dymuniad i barhau'n deyrngar i'r economi sydd o'n hamgylch, ynghyd â'n hymgais i ddarparu'r cynnyrch gorau oll, o lle bynnag y daw.

Un o nodweddion allweddol ein canolfannau cyflenwi yw'r angen i fod mor lleol ag y bo modd i safle pob cleient fel bod cyfanswm y milltiroedd bwyd mor ised â phosibl.

Dyma'r nifer o gyflenwyr sydd o fewn y pellteroedd a nodir i'n prif swyddfa:

**0-49 milltir: 9**

**50-99: 27**


**101-149: 64**

**150-199: 65**

**200-249: 53**

**250-299: 40**

**300+: 18**



Mae prosiect ar y gweill i ddadansoddi'r wybodaeth am filltiroedd bwyd a dderbyniwyd gan ein cyflenwyr i weld a ellir lleihau nifer y milltiroedd a chanfod a oes rhai eisoes yn Sero Net.

Mae milltiroedd bwyd a gofynion Cwmpas Tri yn rhannau allweddol o'n hymgais i fod yn Bositif Net – ffordd o weithio sy'n canolbwyntio ar roi mwy yn ôl i gymdeithas, yr amgylchedd a'r economi fyd eang na'r hyn a gymerwn allan.

Cam allweddol fu ymestyn gallu ein storfa yng Nghriccieth i gymryd 300 palet ychwanegol drwy stacio paletau yn nes at ei gilydd. Gwnaeth hyn i ffwrdd â'r angen i storio cynnyrch yng Nghroesoswallt, a thrwy hynny ostwng ymhellach ein milltiroedd bwyd.

Fel rhan o'r nod Positif Net, rydym yn adolygu ein cadwyn gyflenwi i wneud yn siŵr fod ein cyflenwyr yn cwrdd â'r rheoliadau perthnasol i'r canlynol:

- Y Ddealltwriaeth ar Olew Palmwydd Cynaliadwy – sy'n hyrwyddo twf a defnydd cynhyrchion olew palmwydd mewn ffordd gynaliadwy drwy bennu safonau byd eang
- Y cynllun Tractor Coch – sy'n ardystio a gwarantu safon nifer o gynhyrchion fferm o fewn i'r gadwyn fwyd
- MSC – ffordd o ddangos fod ffermydd pysgod yn dilyn yr arferion gorau ar gyfer pysgota cynaliadwy

Ymfalchïwn yn ein ffocws ar bobl trwy gynnig cyfleoedd gyrfa, hyfforddiant a phrentisiaethau.

Un enghraifft yw ein ffocws ar swyddi mêts gyrwyr (drivers' mates) sy'n cael eu hannog i ennill trwydded HGV yn ogystal â'u gwaith o helpu gyrwyr i ddadlwytho.

Mae pedair aelod benywaidd o'n staff wedi cael dyrchafiad i swyddi allweddol o fewn y cwmni, sef Josie Swift (pennaeth prynu), Laura Holland (rheolydd profiad cwsmeriaid), Alana Pritchard (rheolydd cefnogi busnes), ac Ursula Price (rheolydd datblygu busnes).

Hefyd, cafodd Ian Evans ei ddyrchafu'n fewnol yn bennaeth gweithrediadau.

Wrth ymwneud â'n pobl, gweithredwn yn unol â'r canllawiau cyflog cyfartal.






*Laura Holland, Alana Pritchard Ac Usula Scurrah-Price*






## Cymunedol

Mae cael perthynas adeiladol â'r cymunedau lle gweithiwn yn rhan annatod o ethos y cwmni a cheisiwn gefnogi ymgyrchoedd, elusennau a mudiadau lleol.

Fel rhan o'n dathliadau 50 mlwyddiant, rhoesom £10,000 i amrywiaeth o achosion teilwng, yn cynnwys:

- Cefnogi twnnel polythen yn Ysgol Y Gorlan Porthmadog i helpu plant i ddysgu sut i dyfu llysiau
- Helpu elusen Gristnogol Capel Fron Penrhyndeudraeth i ddiweddaru eu cegin a thoiledau, allanfeydd tân a ramp mynediad
- Helpu Clwb Pêl Droed Llanystumdwy i ddechrau tîm ieuenctid a gwneud gwaith cynnal a chadw ar eu cae chwarae
- Darparu prydau poeth a chludiant i aelodau hŷn o'r gymuned sy'n ymweld â menter gymdeithasol Menter Amlwch
- Trawsnewid darn o dir diffaith yn ardd flodau gwyllt gan grŵp cymunedol blodau gwyllt Harlech
- Noddi Clwb Criced Llewesau Llandudno a'u cit newydd lliwgar
- Cyfrannu at hamperi bwyd i deuluoedd a phlant ysgol anghenus gan Bagiau Cariad, sy'n dosbarthu mwy na 70 uned y mis
- Helpu Hope Restored, sy'n cefnogi pobl digartref a bregus drwy ddarparu hanfodion fel dillad cynnes, bwyd a llety
- Cludo 14 o bobl hŷn i fwynhau diwrnod allan fel rhan o Wasanaeth Gwirfoddol Brenhinol (RVS) Llangar
- Cyflwyno rhodd o £1,000 i Sefydliad DPJ Foundation, gyda £1 o werthiant pob twb o hufen iâ Welsh Maid yn cael ei gyflwyno i'r elusen hon a sefydlwyd i helpu pobl o fewn y diwydiant amaeth i oresgyn heriau iechyd meddwl
- Darparu cit i dîm ieuenctid Prestatyn Athletic
- Helpu gyda gwaith cynnal Prosiect Warws Wrecsam, sef elusen sy'n cefnogi gofalwyr ifanc a phlant o ardaloedd difreintiedig ac oedolion gydag anawsterau corfforol a/neu meddyliol
- Helpu'r Counselling Hub, grŵp sy'n cynnig gofal a chefnogaeth i oedolion a phlant sy'n hunan-niweidio, i wella eu hadnoddau yn Yr Wyddgrug
- Cefnogi gallu Cycling 4 All i gynnig cyfleoedd beicio i bawb gydag anabledd
- Cit chwarae i dîm Merched Chester FC
- Unedau canser symudol i'r elusen Gofal Canser Tenovus
- Helpu NEWCIS i gefnogi mwy na 1,800 o ofalwyr di-dâl sy'n helpu teuluoedd gyda chyflenwadau bwyd yn siroedd Dinbych, Y Fflint a Wrecsam
- Glanhau traethau yng Ngwynedd



# Llywodraethiant

Rydym yn derbyn a chydnabod ein dyletswydd fel cyflogwr i ddarparu gweithle ac amgylchedd diogel i'n holl weithwyr ac ymwelwyr.

I'r perwyl hwn, rydym wedi cyflogi Eryri Consulting, o Lanberis, i ddarparu cefnogaeth iechyd a diogelwch.

Mae'r arbenigwyr yma'n ymweld â'n prif swyddfa ddau ddiwrnod y mis i adolygu ein polisïau a gweithdrefnau.

Mae ein rhestr achrediadau a thystysgrifau yn cynnwys:

- STS Food Safety - a enillwyd ar sail 45 mlynedd o brofiad o ddanfon bwydydd wedi eu rhewi, nwyddau groser oer, eitemau tafladwy a hufen iâ
- SALSA (Safe and Local Supplier Approval)
- NSF (National Service Frameworks) i gadarnhau statws dynodiad gwarchodaeth ddaearyddol cig oen a chig eidion o Gymru (Protected Geographical Indication - PGI)
- Lefel Dau Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd sy'n cydnabod rheolaeth amgylcheddol effeithiol
- Erudus - darparu dadansoddiadau maethol cynhwysfawr, cyngor dietegol a gwybodaeth alergedd i arlwywyr
- Asesu Bygythiadau – Pwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) – pwyntiau allweddol ar gyfer systemau rheoli bwyd
- Threat Assessment and Critical Control Points (TACCP) - pwyntiau allweddol ar gyfer asesu a rheoli bygythiadau er mwyn amddiffyn bwyd rhag ymyrraeth, difwyniad bwri adol neu lygredd
- Vulnerability Assessment and Critical Control Points (VACCP) - pwyntiau allweddol i ganfod a rheoli gwendidau a allai arwain at newid cynnwys bwyd yn y gadwyn gyflenwi am elw ariannol, megis defnyddio a phecynnu cynhwysion rhatach



Mae Janette Jones a Mark Keats, o'r adran gofal iechyd ac addysg wedi dilyn cwrs carlam mewn ymwybyddiaeth amgylcheddol gyda'r bwriad o ledaenu'r wybodaeth a gawsant ar draws y cwmni wrth gyflwyno staff newydd a hyfforddi staff presennol.

Mae'r ddau wedi mynychu nifer o gyrsiau dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn trafod ffyrdd o gynorthwyo gyda datgarboneiddio a sut i gynllunio'n taith tuag at Sero Net.




*Josie Swift*




*Gwasanaeth Bwyd Harlech Foodservice yn dathlu 50 mlynedd ers sefydlu'r cwmni gan y teulu Foskett. O'r chwith i'r dde: Laura Foskett, Milli Foskett, Y Rheolwr Gyfarwyddwr David Cattrall, Hari Foskett, Toby Foskett, Jonathan Foskett, Andrew Foskett ac Ella Foskett.*

# Aelodau'r Bwrdd



## Cyd Gadeiryddion

Andrew Foskett, Jonathan Foskett, a Laura Foskett

## Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Andrew Foskett
Jonathan Foskett
Laura Foskett
David Cattrall (Rheolwr Gyfarwyddwr)
Mike Clishem (Cyfarwyddwr Cyllid)
Mark Lawton (Cyfarwyddwr HCE)

## Tîm Arweinyddiaeth

David Cattrall (Rheolwr Gyfarwyddwr)
Mike Clishem (Cyfarwyddwr Cyllid)
Mark Lawton (Cyfarwyddwr HCE)
Ian Evans (Cyfarwyddwr Gweithredu)
Chris Gregson (Pennaeth Gwerthiant)
Josie Swift (Pennaeth Prynu)

# Wyddech chi?

Dyma rai ffeithiau a ffigyrau trawiadol ynglŷn â'n prosiectau a'n hymrwymiad i wella.

Rydym:

- yn disgwyl arbed cyfanswm o 247 tunnell CO2e yn 2023
- wedi lleihau'n ddramatig ein defnydd o nwyon rhewi gan arbed 93 tunnell CO2e
- yn newid y defnydd o adeilad Bwydlyn, gan arbed 47 tunnell CO2e
- yn arbed mwy na 10 tunnell o allyriadau carbon drwy osgoi tirlenwi
- yn gosod offer rhewi di-injan mewn chwe cherbyd HGV newydd fel bod pob un yn defnyddio 28 litr yn llai o ddiesel bob mis
- wedi lleihau allyriadau teithio gan weithwyr y cwmni o 6.26 tunnell i 4.43 tunnell CO2e
- yn cynhyrchu rhwng 17% a 20% o'n trydan drwy baneli solar (trydan yw tua 96% o'n cyfanswm defnydd ynni)
- wedi rhoi £10,000 i ymgyrchoedd, elusennau a mudiadau lleol

**PRIF SWYDDFA**

Gwasanaeth Bwyd Harlech Foodservice Ltd
Parc Bwyd, Criccieth, Gwynedd, LL52 OLJ

T. 01766 810810
**www.harlech.co.uk**

HARLECH
EST FOODSERVICE 1972
GWASANAETH BWYD

